# Gwaelod y Garth

Cylchlythyr Wythnosol / Weekly Newsletter

**21.02.25**




## Gair gan y Pennaeth ~ *Headteacher's Greeting*

Bu wythnos ola'r hanner tymor yn un emosiynol i bawb yn yr ysgol wrth i ni ffarwelio â'r hyfryd Mrs Herbert. Dymuniadau cynnes i chi am ymddeoliad hir a hapus, a diolch am bob cyfraniad gwerthfawr i'n hysgol. 💜💜💜 Bu'r wythnos hefyd yn un hynod brysur, gydag chyffro yn codi yn ymarferion yr Eisteddfod Ysgol. Bydd y cythraul canu ar ei anterth yn cystadleuaeth y Côr Llys yn sicr – pwy tybed fydd y Llys buddugol eleni? Taf? Elai? Garw? Garth? Cofiwch am ddau ddiwrnod noedig yn ystod yr wythnos sy'n dilyn y gwyliau – mae Dydd Iau 6ed yn **Diwrnod y Llyfr** (dewch yn eich dillad cyfforddus!) a Dydd Gwener 7fed yn ddiwrnod Eisteddfod Ysgol fydd croeso i'r plant ddod i'r ysgol yn lliwiau eu llysoedd neu yn eu gwisgoedd Cymreig.

Gwych iawn yw gallu cyhoeddi bod Pennod 3 o Bodlediad Gair o'r Garth bellach yn barod – hwrê! Gyda phedwar o'n disgyblion talentog yn trafod pwysigrwydd GDance iddyn nhw, mae hwn yn sicr werth gwrandawiad. Diolch i Mr Owen am greu'r podlediad ac i Miss Thomas, Rhys, Anest, Mabli ac Alaw am eu cyfraniadau arbennig. I wrando, ewch i wefan yr ysgol neu cliciwch ar: Pennod 3: GDance

Wedi hanner tymor hir a phrysur, bydd gwyliau'r hanner tymor yn amser pwysig i ymlacio ac i fwynhau gyda theulu a ffrindiau. Dymuniadau gorau am wyliau braf iawn felly i bob un o deuluoedd hyfryd ein hysgol 💜 Dathlwch eich Cymreictod gyda'r gore ar Ddydd Gŵyl Dewi – gwnewch y pethau bychain! ❤️💚💛🖤❤️💚💛🖤❤️💚💛🖤

☆ ☆ ☆ ☆ ☆ ☆ ☆ ☆ ☆ ☆ ☆ ☆

The final week of half term has been an emotional one for us all as we bid farewell to the lovely Mrs Herbert. Our warmest wishes to you for a long and happy retirement, and diolch for your valuable contributions to our school. 💜💜💜 The week has also been a very busy one, with excitement rising for the School Eisteddfod. The rivalry will certainly be at its peak in the House Choir competition – which House will take the prize this year? Taf? Elai? Garw? Garth? Remember there are two notable days at school in our first week back – Thursday 6th in **World Book Day** (come in your comfortable clothes!) and Friday 7th is Eisteddfod Ysgol when the children are welcome to come to school wearing their house colours or Welsh Costumes.

It's wonderful to be able to announce that Episode 3 of the **Gair o'r Garth Podcast** is now ready! With four of our pupils discussing how important GDance is to them, this is certainly worth a listen. Diolch to Mr Owen for valued work creating this, and to Miss Thomas, Rhys, Anest, Mabli and Alaw for their contributions. To listen, visit the school's website or click here: Chapter 3: GDance

After a long and busy half term, the half term holidays will be an important time to relax and enjoy with family and friends. We send our best wishes to all our lovely school families for a truly lovely holiday 💜 Celebrate your Welshness well on St David's Day – gwnewch y pethau bychain – remember to "do the little things"! 💚💛🖤❤️💚💛🖤❤️💚💛🖤

## Dyddiadau Pwysig
## *Important Dates*

**24.2.25 – 28.2.25**
Gwyliau Hanner Tymor
Half Term Holiday

**06.03.25**
Diwrnod y Llyfr
World Book Day

**07.03.25**
Eisteddfod Ysgol

**08.03.25**
Eisteddfod Gylch yr Urdd
Urdd District Eisteddfod

**13.03.25**
Lluniau Dosbarth
Class Photos


**21.03.25**
Gwasanaeth Dosbarth 2E
2E Class Assembly

**Mawrth 26-28**
**March 26-28**
Taith Breswyl B5
*Year 5 Residential*
(Call of the Wild)

Cofiwch hefyd am ein calendr byw sydd ar gael i'w lawrlwytho ar dudalen cartref gwefan yr ysgol.
*Our live calendar is available to download on our school website's homepage.*

# Diolch o galon, Mrs Herbert!








**Dyddiadau Bws Beics Tymor y Gwanwyn**
***Spring Term Bus Bike Days***

7.3.25
21.3.25
4.4.25






Fel ysgol, byddwn yn ymuno â her **Stroliwch a Rholiwch** *Sustrans* eto eleni. Cynlluniwch ymlaen llaw NAWR – faint ohonoch all deithio i'r ysgol ar feic neu sgwter neu yn cerdded dros y pythefnos rhwng Mawrth 24 ac Ebrill 4? Helpwch ni i ennill gwobrau arbennig i'r ysgol!

https://d352t1ilhokup5.cloudfront.net/cms/resources/cy-GB/Sustrans-BWAW-2025-Welsh-InfoSheet.pdf

As a school, we will be joining the *Sustrans* Big Walk and Wheel challenge again this year. Plan ahead NOW – how many of you can travel to school by bike or scooter or walking over the two weeks between March 24 and April 4? Help us win amazing prizes for the school!

https://d352t1ilhokup5.cloudfront.net/cms/resources/en-GB/Sustrans-BWAW-2025-InfoSheet.pdf

## Diwrnod y Llyfr – World Book Day

**Dydd Iau – Thursday**
**06.03.25**

Gan fod darllen yn beth llesol i gynifer ohonom, byddwn yn dathlu Diwrnod y Llyfr yn gyfforddus ac yn hamddenol. Bydd cyfle i ni drafod ein hoff lyfrau yn yr ysgol ac ymlacio wrth eu darllen. Croeso i chi ddod i'r ysgol mewn dillad cyfforddus i'ch helpu i ymlacio – 'onesies', pyjamas, ac efallai clustog i orffwys! Cofiwch ddod â'ch hoff lyfr gyda chi!

To reflect the fact that As reading is a such a beneficial activity for so many of us, we will celebrate World Book Day comfortably and leisurely. We will have opportunities to discuss our favourite books at school and relax while reading them. Children are welcome to come to school in comfortable clothes to help the relaxation – onesies, pyjamas, and maybe a pillow to rest! Don't forget to bring your favourite book with you!

## Eisteddfod Ysgol – School Eisteddfod

**Dydd Gwener – Friday**
**07.03.25**

Dewch yn lliw eich llys neu yn eich gwisg Cymreig.
Dewch â'ch baneri!
Barod i gefnogi?


Croeso hefyd i chi ddod â chlustog er mwyn eistedd yn fwy cyfforddus yn y Neuadd.

**Taf!  Elai!  Garw!  Garth!**


Come in your house colours or your Welsh costume.
Bring your banners!
Ready to support?

You are also welcome to bring a pillow in order to sit more comfortably in the Hall.






DYDD
GŴYL DEWI
HAPUS




GWNEWCH Y
PETHAU BYCHAIN


'Gwisg Genhinen yn dy gap a
Gwisg hi yn dy Galon'......
Dydd Gwyl Dewi Hapus!
Happy Saint David's Day!




Bu’r Cyngor Eco yn plannu 10 o goed ffrwythau yr wythnos hon. Byddant yn cael eu ail-blannu o amgylch safle’r ysgol dros y blynyddoedd nesaf ac edrychwn ymlaen at fwynhau gellyg, afalau a cheirios yn yr ysgol! Diolch Mr Williams, i’r Pwyllgor Eco ac i **@coedcaerdydd**

The Eco Council planted 10 fruit trees this week. They will be re-planted around the school site over the next few years and we look forward to enjoying pears, apples and cherries at school! Diolch to Mr Williams, the Eco Committee and **@coedcaerdydd**.

## Cymro / Cymraes yr Wythnos

## Welsh learners of the week





## Dysgwyr yr Wythnos

## Learners of the week